# Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

## Cofnodion (SFM(2)-01-07)

### Dyddiad y cyfarfod: 25 Ionawr 2007
### Amser y cyfarfod: 2.00pm – 3.57pm
### Lleoliad y cyfarfod: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

| Aelod Cynulliad | |
|---|---|
| Y Gwir Anrhydeddus<br><br>Rhodri Morgan AC | Prif Weinidog Cymru |
| | |
| **Pwyllgor** | |
| Glyn Davies | Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| Janet Davies (Cadeirydd) | Archwilio |
| Janice Gregory | Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio |
| Chris Gwyther | Menter, Arloesi a Rhwydweithiau |
| Gwenda Thomas | Cyfle Cyfartal |
| Rhodri Glyn Thomas | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

#### Swyddogion yn bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Claire Griffiths | Clerc y Pwyllgor (Dros Dro) |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| | |
| Michael Trickey | Pennaeth Creu'r Cysylltiadau |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon, Cworwm a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod Peter Black, Rosemary Butler, Ann Jones a Sandy Mewies wedi ymddiheuro.

1.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant o dan Reol Sefydlog 4.6.

## Eitem 2: Sesiwn graffu – Dyfodol gwasanaethau cyhoeddus gan roi sylw penodol i faterion strategol sy'n codi o Adolygiad Beecham

2.1 Craffwyd ar waith y Prif Weinidog ym maes dyfodol gwasanaethau cyhoeddus agan roi sylw penodol i faterion strategol sy'n codi o Adolygiad Beecham

## Sylwadau Clo

3.1 Dywedodd y Cadeirydd mai hwn oedd y cyfarfod olaf yn ystod Tymor y Cynulliad hwn. Ychwanegodd fod darpariaeth yn y Rheolau Sefydlog drafft i sefydlu Pwyllgor tebyg yn y Trydydd Cynulliad.

3.2 Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod.

3.3 Diolchodd y Prif Weinidog i'r Cadeirydd am ei gwasanaeth, nid yn unig gyda'r Pwyllgor hwn ond gyda'r Cynulliad Cenedlaethol cyfan a dymunodd yn dda iddi ar ei hymddeoliad.

3.4 Ar ran Aelodau'r Pwyllgor, diolchodd Gwenda Thomas i'r Cadeirydd am y ffordd deg a chadarn yr oedd wedi cadeirio'r Pwyllgor. Ychwanegodd mai arbrawf oedd y Pwyllgor ond drwy arweiniad y Cadeirydd roedd yn gobeithio y byddai'r Pwyllgor a fyddai'n ei olynu yn y Trydydd Cynulliad yn adeiladu ar y sylfeini a oedd wedi'u gosod.